


## 11—Bwlch Nant Yr Arian (Cyfoeth Naturiol Cymru)

I greu llwybr gradd ganolig ar gyfer beiciau mynydd.


## 12—Creu Mannau Croeso (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

I ategu prosiect ar gyfer mynedfeydd ac arwyddion integredig.

## 13—Llwybrau ac Arwyddion (Ymddiriedolaeth Cwm Elan)

I gefnogi amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gwarchod treftadaeth, adfer cynefinoedd, mynediad i'r cyhoedd ac ymgysylltu.





14—


## 14—RealMidWales – Newid Canfyddiadau (Twristiaeth Canolbarth Cymru)

Prosiect cydweithredol rhanbarthol a gynhelir ar ran yr holl gyrchfannau yn y Canolbarth. Mae'n cynnwys ymgyrch farchnata a dargedir ar y cyfan at farchnadoedd allweddol yn y DU. Mae'n ymwneud â datblygu cyfryngau cymdeithasol ar gyfer RealMidWales, fideos mewn arddull Vox Box ac ar ffurf datganiadau cryno, a bydd yn defnyddio Facebook Live ar gyfer adrodd storïau sy'n disgrifio profiadau unigryw yn yr ardal.

## 15—Lle Chwedlonol – I Lawr at y Môr (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

Datblygu cynnyrch newydd i ddenu diddordeb ymwelwyr yn y cysylltiadau rhwng môr a mynydd. Bydd animeiddiad newydd ar y we'n adrodd stori Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu. Bydd teithiau cylchol byr yn cael eu creu sy'n seiliedig ar y llwybrau i'r gamlas ac yn ôl ac sy'n defnyddio'r llwybr tynnu a'r cyfleusterau ar hyd y gamlas, yn enwedig y rheini sydd yng nghanolfannau'r pentrefi.

15—






### 16—**Dathlu arfordir ac aberoedd Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion)**

Bydd y prosiect yn datblygu deunydd digidol sy'n canolbwyntio ar draethau sydd wedi ennill gwobrau, trefi a phentrefi, treftadaeth forol a byd natur. Bydd yn creu deunydd i hyrwyddo llwybr arfordirol yr A487 yn y cyfryngau cymdeithasol, ar wefannau ac mewn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd.

### 17—**Darganfyddiadau Digidol yn y Canolbarth – Tair Chwaer (Cyngor Sir Powys/Rhwydwaith Cyrchfan Canol a Gogledd Powys)**

Mae'r prosiect cydweithredol rhanbarthol hwn yn cynnwys ffilm animeiddiedig a gweithgareddau arloesol yn yr awyr agored sydd ag elfen ddigidol iddynt ar gyfer teithwyr annibynnol, megis helfa drysor ar y we.




Dyma rai o'r prosiectau yn y Canolbarth sydd wedi cael cymorth:

**18—Penwythnos y Gaeaf (Gŵyl y Gelli Gandryll)**

Y nod yw datblygu'r ŵyl hon yn strategol i ddarparu profiad o ansawdd da i dwristiaid ac ehangu'r tymor gwyliau mewn modd cynaliadwy, gan creu gwerth hirdymor i'r gymuned a deunydd digidol gwerthfawr sy'n cyrraedd gweddill y byd.

**19—Gŵyl Gomedi Machynlleth (Little Wander Ltd)**

Cynhaliwyd tair sioe unigryw yn Llundain, Manceinion a Birmingham. Bydd gŵyl gelfyddydau gyfoes Aberystwyth yn cael ei datblygu i'w chynnal ym mis Hydref 2018 a fydd yn denu mwy o ymwelwyr na'r arfer y tu allan i'r tymor traddodiadol.

**20—Blas Cambrian Taste (Ymgynghoriaeth Bwyd Howell )**

Cynhelir y prosiect hwn ledled Cymru a bydd yn cyflwyno cyfeiriadur o'r enw "Blas Cambrian Taste" o fusnesau a chymunedau bwyd a diod ar hyd Ffordd Cambria gan eu troi'n glystyrau ar gyfer llwybrau a ffyrdd blasu ar hyd prif rannau'r A470. Fe'u nodir a'u marchnata drwy ddeunydd marchnata ar-lein ac oddi ar-lein a gaiff eu hyrwyddo gan sefydliadau partner drwy'u gwefannau a phlatfformau digidol.

## 21—Taith Cragen, Bwystfil y Môr (Small World Theatre Ltd)

Nod y prosiect cydweithredol hwn yw darparu naw perfformiad cyffrous ledled Cymru sy'n seiliedig ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn ystod Blwyddyn y Môr a Blwyddyn Ddarganfod. Bydd yn creu bwystfil y môr 20m o hyd o wastraff plastig yn y môr a deunydd nad yw'n fioddiraddadwy i deithio ar hyd arfordir godidog Cymru (#Arfordir) gan gysylltu Ffordd Gogledd Cymru â Llwybr yr Arfordir. Bydd profiadau cofiadwy'n cael eu creu, gan gysylltu twristiaeth â sefydliadau amgylcheddol allweddol, a bydd y prosiect yn dod yn rhan o'r ymgyrch ryngwladol #cleanseas



21—

## 22—#GwirCanolbarthCymru #RealMidWales Darlledaid byw ar Facebook neu drwy'r teledu (Twristiaeth y Canolbarth)

Prosiect cydweithredol ar gyfer Cymru gyfan yw hwn a fydd yn darparu "darllediadau araf" am 8 awr ar y tro mewn 4 lleoliad. Dewisir lleoliadau sydd ger llwybrau Ffordd Cymru ag iddynt gysylltiad ag ymgyrch Blwyddyn y Môr. Ar ôl pob darllediad byw, bydd fideo'n cael ei chreu i'w defnyddio mewn ymgyrch farchnata yn y cyfryngau cymdeithasol.

© Mandy Llewellyn

